

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW
7:30YH 23^{AIN} CHWEFROR 2022
YNG NGHANOLFAN BRO CERNYW

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Diane Roberts (DR), Einir Williams (EW), Ann Vaughan (AV), Mark Davies (MD) & Gwyn Williams (GW)

1.3 Ymddiheuriadau: Gwynfor Davies (GD) & R. Emlyn Williams (REW)

1.4 Absennol: Gwydion Jones (GJ) & Garffild Lloyd Lewis (GLL)
Cofion at REW yn dilyn triniaeth ddiweddar.

2 DATGANIAD DIDDORDEB

AV – 8.1

3 GŴR GWADD – MEL AP OWAIN UN LLAIS CYMRU

Croesawodd CR Mel ap Owain o Un Llais i'r cyfarfod. Cyflwynodd y mater o gael clerc newydd a'r dyletswyddau fyddai angen eu cwblhau, newidiadau yn golygu fod rhaid cael clerc a rheolau newydd i'w dilyn. Soniodd am hysbysu swydd a telerau. Cadarnhad fod dogfennau ar gael i helpu.

Mel am baratoi a gyrru ebost i'r Cynghorwyr efo templedi ac enghreifftiau i helpu ar gyfer hysbysu.

Diolchodd CR i Mel am fynychu'r cyfarfod.

4 COFNODION I'W GWIRO 19^{EG} IONAWR 2022

Cynnigwyd yn gywir gan EW ac eilwyd gan DR.

5 MATERION YN CODI

AV yn gofyn am yr arian grant ar gyfer y blodau. EW yn cadarnhau fod taliad wedi dod i mewn i'r cyfrif am hwn.

EW ddim wedi cael cyfle i fynd i brynu gliniadur i'r Cyngor eto.

Pont droed yn Gwytherin, EW wedi bod yn gwneud ymholiadau pellach, mae'n debyg taw llechen las oedd yno yn flaenorol. Penderfynwyd rhoi hysbyseb ar wefan y Cyngor yn hysbysu'r gwaith.

AV yn codi fod arwydd dim cŵn wedi roi ar arwydd Glan Collen sydd yn edrych fel ei fod wedi ei daro yno. Neb yn gwybod dim am hwn.

Adroddodd EW fod yr arwyddion newydd sydd wedi eu gosod yn Gwytherin wedi eu tynnu i lawr. Penderfynwyd gofyn i'r Warden Cŵn osod arwyddion yno, CR i ofalu.

AV yn codi'r mater o asesiad risg y fynwent, i'w drafod yn y cyfarfod nesaf pan fydd REW yn bresennol. MD wedi gweld ffolder ar giat y fynwent ond heb edrych beth oedd y ffolder.

6 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dim ceisiadau.

7 CEISIADAU ARIANNOL

7.1 Ysgol Bro Cernyw wedi gofyn am gyfraniad tuag at daith i Langrannog. EW am gysylltu efo'r ysgol i awgrymu eu bod yn gwneud cais i Gronfa Bro Cernyw. Angen i'r cais ddod i law erbyn y cyfarfod nesaf.

7.2 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy yn hysbysu y bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal eleni. DR yn cynnig cyfranu £30, AV yn eilio.

8 MATERION Y CYNGOR

8.1 Croesawodd CR Non Davies i'r cyfarfod drwy gyfrwng Zoom. CR heb gael ateb gan y cwmni i gynnig dyddiadau ar gyfer cyfarfod i drafod y mater. Non Davies yn siomedig ond ddim yn synnu nad oes dyddiad ar gyfer cyfarfod wedi ei drefnu. CR yn nodi fod gan y cyhoedd hawl i fynychu cyfarfodydd y Cyngor. Aros i glywed pryd fydd Bute yn mynychu cyfarfod.

MD yn ategu fod Bute Energy yn cario ymlaen efo gwaith paratoadol arall ond nad ydynt yn cyfathrebu efo'r gymuned.

8.2 Julia Ridlington (JR) wedi mynychu'r cyfarfod fel perchennog Brook House. Croesawodd CR JR i'r cyfarfod. Soniodd JR ei bod yn bensaer ac wedi penderfynu adnewyddu'r adeilad fel cartref. CR yn codi fod y mater wedi bod yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd diweddar. Gofynnodd CR pam nad oedd adroddiad ystumod wedi ei baratoi, JR yn nodi nad oedd yn ymwybodol fod angen un. Gofynnodd CR os oedd modd byw yn yr adeilad cyn iddi gychwyn ar y gwaith. Cadarnhaodd JR fod y cyn-berchennog wedi bod yn byw yno ers 5 mlynedd. Cadarnhaodd JR fod trydan a dŵr ayyb yno hefyd cyn iddi brynu'r adeilad. Cynghorwyr yn cael cyfle i ofyn cwestiynau. GW yn dweud fod yr adeilad wedi bod yn adeilad gwaith nwy ar gyfer Hafodunos. MD hefyd yn nodi fod dogfennau yn cadarnhau fod adeiladau gwaith nwy yn cael eu defnyddio gan dai bonedd, fel Hafodunos. MD yn dangos enghraifft ar y wê. CR yn nodi fod gan y Cyngor Cymuned tan 14^{eg} Mawrth i roi penderfyniad i'r Cyngor Sir. Diolchodd CR i JR am fynychu'r cyfarfod.

Trafodaeth ymysg y Cynghorwyr yn dilyn, dim dogfennau o gwbl ar gyfer yr adeilad. Neb chwaith erioed wedi talu treth ar yr adeilad ond fod biliau trydan ayyb. MD yn sôn fod septic tanc wedi ei osod hefyd, heb ganiatad.

Cynghorwyr yn flin oherwydd fod cymaint o bobl leol wedi rhoi cais am ganiatad i wneud hen adeiladau i fyny fel catrefi yn y gorffennol ond y Cyngor Sir wedi eu gwrthod a fod hwn yn mynd trwadd.

AV yn cynnig paratoi ateb yn syth, EW yn eilio. CR am yrru sylwadau i'r Cyngor Sir.

GW yn gofyn os oedd modd cyfarfod â Peter Wood, Swyddog Cynllunio Conwy i drafod y cais. CR am wneud ymholiadau.

8.3 DR wedi mynychu cyfarfod Un Llais ar Zoom pan oedd Iwan Davies, Prif Weithredwr Conwy yn ôl gwadd. Prinder staff a problemau recriwtio yn y Cyngor ar hyn o bryd. MD & EW yn ategu fod hyn yn broblem mewn sawl maes ar hyn o bryd. Staff y Cyngor Sir dal yn gweithio o adref ar hyn o bryd ac yn adrodd fod pawb wedi bod yn gweithio gyda'u gilydd dros y pandemig. BDO ymhell ar ôl yn eu gwaith, Covid-19 yn cael bai am hyn. Graddfa cyflog clerics wedi cael ei drafod a'i ôl-dalu i Ebrill 2021, i'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf.

Bu trafodaeth am Gynghorwyr yn cael eu talu am fynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned. Cynghorwyr wedi penderfynu yn flaenorol nad ydynt am dderbyn arian oherwydd buasai angen codi'r presept. Rhan fwyaf o gynghorau yng Nghonwy a Dinbych dal yn cyfarfod ar Zoom, Cyngor Bro Cernyw yn y lleiafrif yn cyfarfod mewn canolfanau. Diolchwyd i DR am fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor a rhoi adroddiad i'r Cynghorwyr.

9 ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR

Dim wedi dod i law. Cynghorwyr yn siomedig eto.

10 BILIAU

10.1 Enlli: £137.07, cytunwyd i dalu.

10.2 Pentre Wern am glirio'r coed, £2,400. Cytunwyd i dalu.

11 MATERION LLEOL

DR wedi cael dau gwyn fod tybiau yn flêr ym Mhandy Tudur. Gwaith diweddar ar y ffordd wedi cael ei wneud ond yn anffodus fod rhai tyllau yn waeth. CR am hysbysu'r Cyngor Sir eto am waelod allt Tyn Pistyll.

EW gwrych ger Ysgol Llangernyw wedi gor-dyfu. Trafodaeth taw'r Cyngor Sir sydd yn berchen y gwrych yma. EW am gysylltu efo GLL ynglyn â hwn.

Cyrsiau wedi eu cyllido'n llawn ar gyfer cynghorwyr ar y wê. EW am fynychu cwrs ar gyfer awdit ac un ar gyfer cyfreithiau Cyngor. Wedi mynychu webinar heddiw ac am yrru'r wybodaeth ymlaen ar gyfer y cyfarfod nesaf.

AV wedi gyrru ffurflen i CR & DR i'w llenwi a'i gyrru yn ôl i fynychu cwrs gynau gôr-yrru.

Wedi cael cwynion am y Bont Faen fod gwellt yn flêr yn dilyn gwneud gwaith yno ac os yw'r gweithwyr yn dod yn ôl i dacluso. EW am gysylltu efo GLL am hyn hefyd.

Dŵr yn dod o ffos ger Ddol Bach yn byrlymu fyny a wedi hysbysu'r Cyngor Sir drwy Report It.

GLL wedi gyrru llythyr ymlaen yn uniaith Saesneg ynglyn â'r etholiad gan y Cyngor Sir, GLL yn delio.

12 CYFARFOD NESAF

30^{ain} Mawrth 2022 yng Nghanolfan Gwytherin

Cyfarfod yn dod i ben 9:45yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan